Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llangadog**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog**
**Llangadog**
**SA19 9HP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/09/2023

# Cylch Meithrin Llangadog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llangadog |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Gorffennaf 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y bobl sy'n defnyddio, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac ar yr achlysur hwn, dim ond y themâu llesiant, gofal a datblygiad ac arweinyddiaeth a rheolaeth y gwnaethom eu hystyried.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Mae digon o gyfleoedd chwarae a dysgu ar gael iddynt ddewis o'u plith. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu â'u ffrindiau ac ymgysylltu â'r cyfleoedd diddorol sydd ar gael iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad i sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae'r staff yn mwynhau bod yng nghwmni'r plant, ond nid ydynt bob amser yn teimlo bod yr arweinwyr yn gwrando arnynt. Mae'r staff yn ofalgar ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer sesiynau'r bore.

Mae angen gwella trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad. Mae'r diffyg cyfathrebu rhwng y staff, yr arweinwyr ac aelodau'r pwyllgor yn amlwg. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cefnogi'r lleoliad er nad yw bob amser yn deall ei rôl yn llawn. Gwnaeth yr arweinwyr newidiadau yn ystod ein hymweliad er mwyn sicrhau bod cofnod clir i ddangos pa staff sy'n bresennol ar bob adeg, gan gynnwys amseroedd egwyl.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn cael eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Gallant ddewis o blith amrywiaeth o weithgareddau pleserus. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan weithredol wrth wneud toes chwarae gyda'r staff. Mae'r plant yn chwilfrydig a daethant atom yn hyderus i ofyn beth roeddem yn ei wneud.

Mae'r plant yn hapus, yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad, gan chwarae ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cryf â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Maent yn dangos sgiliau annibynnol da ac yn defnyddio'r toiledau pan fydd angen.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn cael gofal. Mae'r staff yn cynnal asesiadau a gwiriadau risg dyddiol cyn i'r plant gyrraedd. Cafodd y gweithdrefnau ar gyfer amser egwyl eu hadolygu'n ddiweddar er mwyn sicrhau bod y cymarebau bob amser yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad, gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff yn allgofrestru wrth adael yr adeilad am egwyl. Cafodd hyn effaith ar ymarfer tân yn ddiweddar. Hefyd, yn ystod sesiynau'r prynhawn, gwnaeth y person â chyfrifoldeb newidiadau ar unwaith sy'n galluogi pob aelod o'r staff i fewngofrestru ac allgofrestru wrth adael y lleoliad ac wrth ddychwelyd.

Mae'r staff yn ofalgar ac yn garedig ac yn mwynhau eu hamser gyda'r plant. Maent yn ymateb i'r plant gan ddangos empathi a rhoi sicrwydd iddynt, a chan gynnig mwythau os bydd angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ceir arweinyddiaeth a rheolaeth ddigonol yn y lleoliad. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r rhieni am y lleoliad er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran a yw'n addas ar gyfer eu plentyn.

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol, ac mae rhai ohonynt yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan y person â chyfrifoldeb. Mae'r cymarebau staffio bellach yn cael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau. Mae pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau i drafod eu ymarfer, eu datblygiad proffesiynol, ac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn teimlo bod eu pryderon mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant yn cael eu clywed.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau yr ymdrinnir â'r holl gwynion a gaiff eu cyflwyno yn drylwyr ac yn unol â pholisi'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth nad oedd yr unigolyn cyfrifol wedi rhoi polisi disgyblu'r gwasanaeth ar waith wrth ymdrin â chŵyn mewn perthynas ag ymddygiad. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cyfathrebu'n glir â'r pwyllgor ac nid yw'n rhannu gwybodaeth bwysig am bwy sy'n gyfrifol am dasgau penodol. Er enghraifft, nid oes unrhyw weithdrefnau clir ar gyfer materion ariannol. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn dangos dealltwriaeth dda o'i rôl yn arwain y tîm. O ganlyniad, nid yw bob amser yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Hefyd, nid yw'n sicrhau bod y staff perthnasol sy'n gweithio yn y clwb gwyliau ac yn y clwb ar ôl ysgol wedi cwblhau'r cymhwyster gwaith chwarae angenrheidiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod yn rhoi'r polisi disgyblu ar waith ac yn gweithredu, pan fo angen, mewn modd amserol | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 15 - Cymarebau staffio | Sicrhau bod digon o staff addas ar gael bob amser pan fydd aelodau eraill o staff ar egwyl, |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod y staff perthnasol yn meddu ar y cymhwyster gwaith chwarae priodol |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau yr ymdrinnir â phob mater a gaiff ei godi yn ystod sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd staff yn briodol ac yn effeithiol. |
| Sicrhau bod y prosesau gweinyddol yn golygu y gall y pwyllgor chwarae rhan weithredol wrth weithredu'r busnes |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/11/2023